# Pwyllgor Adnoddau Dynol

**29 Mehefin 2022**

Yn Bresennol: Mrs J James (Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair)
Cynghorydd Mrs D Clements, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd SL Hancock, Mr GA Jones, Cynghorydd R Jordan a'r Cynghorydd A Wilcox.

[Cyrhaeddodd y Cynghorydd PJ Morgan cyn ystyried cofnodion y cyfarfod blaenorol (gweler Cofnod 5).]

(Cyfarfod rhithiol: 2.00 p.m. – 3.30 p.m.)

**1. Ethol Cadeirydd**
**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** i ethol y Cynghorydd M James yn Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod.

**2. Ethol Dirprwy Gadeirydd**
**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** i ethol Mrs J James yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod.

**3. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd M James.

**4. Datgan Buddiannau**
Datganodd y Cynghorydd Dr S Hancock bod ganddo fuddiant yn y drafodaeth ar Gyflog Byw y DU (gweler Cofnod 7d).

**5. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18 Mai 2022 ac ar 25 Mai 2022 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**Penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18 Mai 2022 ac ar 25 Mai 2022.

**6. Materion yn Codi**
a) <u>Panel Penodi Cyfarwyddwr (Cofnod 4e) 18 Mai 2022</u>
Dywedwyd y penderfynwyd yn y cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol pan grëwyd y Panel hwn i hefyd gynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

Dywedodd Dr Heath-Davies pe bai'r Pwyllgor o'r farn bod y Panel yn rhy fawr, ei bod yn hapus i gamu o'r neilltu. Serch hynny, barnwyd mai gwell

fyddai iddi barhau ar y Panel rhag ofn na fyddai Aelodau arall yn gallu bod yn bresennol ar y dyddiad y cytunir arno.

**Nodwyd.**

b) Ailstrwythuro (Cofnod 5, 18 Mai 2022 a Chofnod 5, 25 Mai 2022)
Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod Aelodau'r Awdurdod ar adeg y cyfarfod wedi cael copi o'r strwythur diwygiedig, a bod copi hefyd wedi'i gynnwys fel rhan o'r broses sefydlu ar gyfer Aelodau newydd. Mewn ymateb i gwestiwn arall, cadarnhaodd y Rheolwr AD bod erthygl ar gyfer cylchlythyr y staff yn ymateb i'r pwyntiau a godwyd fel rhan o'r ymgynghoriad wedi'i drafftio, a rhagwelwyd y byddai'r erthygl hon yn cael ei dosbarthu yn y dyddiau nesaf. Ailddatganodd yr Aelodau ei bod yn bwysig bod pob aelod o'r staff yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf.

Gofynnwyd hefyd am ddiweddariad ar broffilio costau ar gyfer y strwythur newydd, a dywedodd y Prif Weithredwr y byddai hyn yn cael ei ddarparu wrth i'r gwaith o gyflwyno'r strwythur fynd rhagddo.

O ran y datganiad ym mharagraff 2 ar dudalen 2 o'r cofnodion ynghylch nifer y Cyfarwyddwyr, eglurodd y Prif Weithredwr bod hyn wedi codi o awgrym gan aelod o'r staff bod gan yr Awdurdod 4 Cyfarwyddwr yn flaenorol ac y byddai hyn yn ateb posibl i bryderon yr Aelodau ynghylch nifer y bobl oedd yn atebol yn uniongyrchol iddo yntau. Fodd bynnag, ailddatganodd y pwynt nad oedd hyn yn ariannol hyfyw.

**Nodwyd**.

## 7. Adroddiad Rheoli AD

a) Polisi Dirgryndod Llaw-Braich
Eglurodd y Rheolwr AD bod Dirgryndod Llaw-Braich (HAVS) yn un o'r risgiau amlycaf i iechyd gweithwyr yr Awdurdod (ynghyd â defnyddio Llifau Cadwyn a mathau eraill o offer torri), felly roedd polisi wedi'i ddrafftio mewn ymateb i Reoliadau Rheoli Dirgryndod yn y Gwaith 2005.

Byddai'r Polisi yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod nesaf yr Awdurdod i'w adolygu a'i gymeradwyo, ac roedd copi wedi'i atodi i'r adroddiad er mwyn cael adborth gan Aelodau'r Pwyllgor. Roedd copi eisoes wedi'i ddarparu i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol.

Dywedwyd bod offer a meddalwedd i fesur cysylltiad â dirgryndod llaw-braich wedi'u prynu a'u bod yn cael eu cyflwyno ar draws yr Awdurdod. Roedd y gwaith ar y gweill o brofi'r offer, a byddai monitro defnydd unigolion o'r offer yn gam dau o'r cynllun lliniaru, ac y byddai'n digwydd o fis Awst ymlaen unwaith y byddai hyfforddiant ar gyfer y rheolwyr a'r timau wedi'i gynnal. Eglurodd y Rheolwr Adnoddau Dynol bod HAVS yn rhywbeth yr

oedd yr Awdurdod wedi bod yn ei reoli ers nifer o flynyddoedd, a bod yr Awdurdod bob amser wedi prynu'r offer mwyaf diweddar i leihau'r llwyth dirgryndod i'r staff, gan gynnwys defnyddio offer sy'n cael ei bweru gan drydan neu nad oedd angen rheoli'r offer â llaw. Roedd yr amser a dreulir gan unigolion yn defnyddio'r offer hefyd yn cael ei reoli.

Roedd yr Aelodau yn cydnabod bod hwn yn bolisi pwysig, ac roedd ganddynt ddiddordeb mewn deall sut mae'r offer yn gweithio. Cwestiynwyd y defnydd o'r gair 'gwyliadwriaeth' drwy gydol y polisi. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod cyflwyno gwybodaeth am y risgiau, yr addysg a'r cymorth i'r staff yn rhan hanfodol bwysig o'r polisi.

**Penderfynwyd** bod y Pwyllgor yn cefnogi cyflwyno'r Polisi HAVS, fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i'w gymeradwyo.

b) Diweddariad ar Ailstrwythuro'r Sefydliad
Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar y camau a gymerwyd ers i'r Aelodau gymeradwyo'r newidiadau i'r strwythur staff gwreiddiol, a wnaed o ganlyniad i'r ymgynghori â'r staff, yn y cyfarfod blaenorol. Dywedwyd bod trafodaethau gyda'r staff ynglŷn â'r tri maes oedd heb eu penderfynu (Pobl a Llywodraethu; Iechyd a Lles; a Gweinyddiaeth) yn parhau, a bod adolygiad o'r maes gweinyddiaeth wedi cychwyn. Y gobaith oedd cynnal Pwyllgor Adnoddau Dynol arbennig ddiwedd mis Gorffennaf neu ddechrau Awst fel bod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar yr elfennau hynny o'r strwythur.

Holodd un Aelod am eitem o adborth oedd yn cynnwys gwrthgynnig nad oedd wedi'i gyflwyno i'r cyfarfod blaenorol, a gofynnodd a fyddai'r gwrthgynnig hwn yn cael ei ddogfennu mewn rhyw fodd. Cadarnhaodd y Rheolwr AD bod hyn wedi'i gofnodi'n fewnol a gan fod hyn yn un o'r elfennau o'r strwythur oedd heb ei datrys, byddai'n cael ei drafod gyda'r Pwyllgor AD yn ddiweddarach.

**Nodwyd.**

c) Recriwtio Cyfarwyddwr
Dywedwyd y byddai'r ymgyrch hysbysebu yn cau ar 17 Gorffennaf, a bod lle i gredu yn ôl yr ymgynghorydd chwilio, Gatenby Sanderson, bod cryn dipyn o ddiddordeb wedi bod a rhai ymgeiswyr da.

**Nodwyd.**

d) Cyflog Byw y DU
Dywedwyd bod yr Awdurdod wedi cefnogi Cyflog Byw y DU yn answyddogol ers 2015 drwy fabwysiadu 'lwfans byw atodol' a dalwyd fel elfen ar wahân o gyflog i bontio'r bwlch rhwng cyfraddau cyflog yr

Awdurdod a’r Cyflog Byw ar y pryd. Gan fod hyn wedi parhau bob blwyddyn ers 2015, gellid dadlau’n gryf bod hyn wedi dod yn ‘arferiad ac ymarferiad’ a phe bai’n cael ei brofi mewn Tribiwnlys Cyflogaeth, byddai’n cael ei ystyried yn newid contract parhaol. Fodd bynnag, nid oedd yr Awdurdod erioed wedi ceisio achrediad ffurfiol fel Cyflogwr Cyflog Byw. Gofynnwyd am farn yr Aelodau ynghylch a ddylid ceisio achrediad, gan y byddai hynny yn galluogi'r Awdurdod i farchnata ei hun fel cyflogwr cyflog cyfrifol a theg sy'n ymroddedig i fynd ymhellach na lleiafswm y llywodraeth i wneud yn siŵr bod ei staff yn ennill digon i fyw arno, oedd yn cyfleu neges gadarnhaol mewn marchnad recriwtio anodd. Yn y cyfarfod, roedd y Rheolwr AD wedi gosod y cwestiwn hwn yng nghyd-destun y broses o adolygu cyflogau cenedlaethol 2022/23, proses oedd yn dal i fynd rhagddi.

Ar y cyfan roedd yr Aelodau yn gefnogol i'r Awdurdod geisio achrediad fel cyflogwr Cyflog Byw. Serch hynny, o ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd, a phroses yr Awdurdod o ailstrwythuro, a'r adolygiad o gyflogau a graddfeydd oedd ar ddigwydd, roeddent o blaid bod yn bwyllog, a gofynnwyd am bapur manylach gyda mewnbwn gan Reolwr Cyllid yr Awdurdod ynglŷn â pha mor fforddiadwy yw penderfyniad o’r fath.

**Nodwyd.**

e) <u>Recriwtio</u>
Dywedwyd bod yr Awdurdod yn dechrau teimlo effaith y prinder sgiliau yn y DU, a gofynnwyd am farn yr Aelodau ynghylch cyflwyno rhaglen hyfforddeion, i fuddsoddi yn ei hyfforddiant a'i ddatblygiad ei hun, yn ogystal â dilyniant gyrfa staff mewnol. Byddai adroddiad pellach ar hyn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Roedd yr Aelodau'n gefnogol i'r ymagwedd hon. Cytunwyd bod cynllunio olyniaeth yn bwysig ym mhob rhan o’r Awdurdod ac y dylid rhoi pob anogaeth i ddatblygu prentisiaid, dysgu o wersi cynllun Kickstart, a gweithio gyda Choleg Sir Benfro a darparwyr eraill gweithwyr dan hyfforddiant.

**Nodwyd.**

f) <u>Metrigau Adnoddau Dynol - Mai 2022</u>
Cyflwynwyd ystod o fetrigau, gyda sylwadau cryno i egluro rhai o'r rhain. Gofynnwyd cwestiwn ynghylch y cyfraddau uchel o absenoldeb, a dywedodd y Rheolwr Adnoddau Dynol bod y mwyafrif o'r rhain yn gysylltiedig â COVID. Cytunodd i gynnwys ffigurau canrannau fel y gellir meincnodi â sefydliadau eraill yn yr adroddiad nesaf. Ychwanegodd bod hyfforddiant gloywi yn cael ei drefnu mewn ymateb i ddigwyddiad RIDDOR (Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013).

**Nodwyd.**

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Pwyllgor Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2022 heb eu diwygio.